# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 23 Gorffennaf 2003

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ran o Gymru y mae Swyddfa'r Canolbarth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru'n gyfrifol amdani a faint o staff y mae'n eu cyflogi. (WAQ27521)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o geisiadau i gofrestru Cartrefi Gofal a wnaed i Swyddfa Ranbarthol y Canolbarth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. (WAQ27522)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o geisiadau i gofrestru Cartrefi Gofal i Oedolion Ifanc a wnaed i Swyddfa Ranbarthol y Canolbarth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. (WAQ27523)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Faint o nyrsys diabetes arbenigol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd (WAQ27560)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Faint o glinigau diabetes arbenigol sydd yng Nghymru ar hyn o bryd (WAQ27561)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost comisiynu 'Yr Adolygiad o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. (WAQ27562)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Brian Gibbons (Aberafon);** A oes cynlluniau i ostwng oedran cymwys ymgeiswyr mewn etholiadau lleol i ddeunaw. (WAQ27524)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa waith sydd wedi'i wneud i liniaru llifogydd ar yr A483 ger y Trallwng. (WAQ27525)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant RSA ar gyfer pob blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ27535)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant RSA yng Nghymru. (WAQ27536)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb ddynodol RSA ar gyfer 2004/05. (WAQ27537)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd fydd cylch nesaf y cynigion am arian o'r Gronfa Busnesau Bach. (WAQ27538)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Gronfa Busnesau Bach. (WAQ27539)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian sydd ar gael i'r Gronfa Busnesau Bach ar gyfer 2003/04. (WAQ27540)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i ddynodi'r ffordd i Faes Awyr Caerdydd yn gefnffordd. (WAQ27541)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau sydd ynghylch cymorth RSA i gwmnïau sydd am ehangu. (WAQ27542)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn amcangyfrif llinell gyllideb RSA. (WAQ27543)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwerau penodol Cyllid Cymru. (WAQ27544)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod Cyllid Cymru'n gweithredu o fewn ei bwerau. (WAQ27545)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa bwerau sancsiynu sydd gan y Gweinidog dros Gyllid Cymru os yw'n gweithredu y tu hwnt i'w fandad. (WAQ27546)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb ddynodol ar gyfer 2004/05 i gynnal gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. (WAQ27547)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant i gynnal seilwaith y rheilffyrdd ar gyfer pob blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ27548)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb ddynodol ar gyfer 2004/05 i gynnal seilwaith y rheilffyrdd. (WAQ27549)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi gwario RSA y Cynulliad. (WAQ27550)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar WIDAB (Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru). (WAQ27551)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb ddynodol Grant Buddsoddi'r Cynulliad ar gyfer 2004/05. (WAQ27552)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad. (WAQ27553)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno mesurau arafu traffig ar Gefnffordd yr A495 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. (WAQ27554)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar ffynhonnell y ffigyrau y cyfeirir atynt yn adroddiad blynyddol ‘Cymru'n Ennill’ sy'n dangos fod dwy ran o dair o'r swyddi newydd yng Nghymru yn dod o'r sector preifat. (WAQ27558) **W**

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o gyllid cyfatebol ychwanegol fydd ei angen ar bob un o’r rhaglenni cronfeydd strwythurol yn 2003/04, 2004/05 a 2005/06, o ganlyniad i ailwerthuso gwerth y rhaglenni wedi newidiadau yn y gyfradd gyfnewid. (WAQ27559) **W**

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffigurau gwrthgyferbyniol ar gyfer y newid diweddaraf mewn cyflogaeth a swyddi cyflogedig. (WAQ27563)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Faint o athrawon sydd wedi gorfod colli eu swyddi, sydd wedi colli eu swyddi o'u gwirfodd, sydd wedi ymddeol yn gynnar, neu y mae eu contractau dros dro heb gael eu hadnewyddu eleni. (WAQ27526)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Sut y mae’r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod cyllid digonol ar gael i golegau sy’n cynnig cyrsiau dwyieithog yn y flwyddyn 2003-04. (WAQ27555) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd na fydd cwtogi ar gyllid colegau addysg bellach yn y Gogledd Orllewin yn y flwyddyn 2003-4; yn benodol Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai. (WAQ27556) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi i ddisgyblion addysg

ôl-16 a fydd yn dechrau ar gyrsiau ym mis Medi mewn ysgolion uwchradd, y bydd parhad i'r cyrsiau o fewn yr ysgolion. (WAQ27557) **W**

## *Gofyn i Gadeirydd Pwyllgor y Ty*

**Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff Cadeirydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ar ddiweddaru'r holl ddeunyddiau addysgol addas yng Nglanfa'r Cynulliad. (WAQ27527)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaeth y mae wedi ei chael ag awdurdodau lleol yn ymwneud ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27528)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaeth y mae wedi ei chael â'r heddlu yn ymwneud ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27529)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i gyflwyno mentrau newydd i fynd i'r afael ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27530)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'r Cynulliad wedi eu cymryd i fynd i'r afael ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27531)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaeth y mae wedi ei chael â grwpiau crefyddol yn ymwneud ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27532)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaeth y mae wedi ei chael â'r sector gwirfoddol yn ymwneud ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27533)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw grantiau gan y Cynulliad y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael ag ymosodiadau â chymhelliad hiliol yng Nghymru. (WAQ27534)